**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Poverty Reduction Policy Development and Delivery Committee

**Committee Room 5 - Guildhall, Swansea**

**Wednesday, 28 February 2018am 4.00pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Chair) Bu fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| P Downing | D W Helliwell | B Hopkins |
| P K Jones | L R Jones | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| G Lelliott | Swyddog Masnachol, Bwyd a Thyfu Cymunedol |
| R Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| S Richards | Prif Gyfreithiwr |
| C Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| S Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Eraill:**

| | |
|---|---|
| H Jones | Rheolwr Ardal y Rhaglen, WRAP Cymru |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorwyr: A Pugh ac L V Walton

---

## 40 Datganiadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 41 Cofnodion

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2018 fel cofnod cywir.

## 42 Gwastraff Bwyd. (Cyflwyniad gan WRAP)

Cyflwynwyd Rheolwr Ardal y Rhaglen o ran Atal Gwastraff Bwyd a Lleihau Tlodi (WRAP) Cymru gan y Swyddog Masnachol, Bwyd a Thyfu Cymunedol.

Dywedodd Rheolwr Ardal y Rhaglen (WRAP) Cymru na fyddai ei gyflwyniad yn sôn am wastraff plastig a byddai'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefndir a Gweledigaeth - WRAP Cymru
- Ailgylchu Gwastraff Bwyd

- Courtauld 2025
- Caru Bwyd Casáu Gwastraff
- Ailddosbarthu Bwyd Dros Ben
- Cymryd Rhan

Nododd yr aelodau fod WRAP yn sefydliad nid er elw sy'n gweithio gyda llywodraethau, busnesau a dinasyddion er mwyn creu byd lle rydym yn dod o hyd i adnoddau a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy. Mae arbenigwyr WRAP yn rhoi'r atebion sydd eu hangen, yn seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn gwarchod yr amgylchedd, adeiladu economïau cryfach a chefnogi cymdeithasau mwy cynaliadwy.

Mae gwaith WRAP yn effeithio ar bob elfen o'r bwyd rydym yn ei fwyta, o gynhyrchu i fwyta a thu hwnt.

Cyfeiriodd Rheolwr Ardal y Rhaglen (WRAP) at yr her sy'n gysylltiedig â newid ymddygiad; Ymgyrch Cyfathrebu Ailgylchu Gwastraff Bwyd; Ymrwymiad Courtauld 2025; yr Achos Busnes dros Newid; Ymagwedd Caru Bwyd Casáu Gwastraff; Eiliadau Ymgyrch Caru Bwyd Casáu Gwastraff; Ailddosbarthu, Creu Cyfleoedd; Ailddosbarthu Bwyd Dros Ben; Blaenoriaethau am Gymryd Rhan a Gweithredu, Eich Adnodd Gorau.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd Rheolwr Ardal y Rhaglen fod angen ailaddysgu a dychwelyd i'r hanfodion (hyfforddiant coginio yn y gymuned, cynllunio prydau ac ati) er mwyn newid ymddygiad; mae trefniadau ar waith yn y rhan fwyaf o archfarchnadoedd er mwyn ailgylchu bwyd dros ben a gweithio mewn partneriaeth â'r cyngor er mwyn codi ymwybyddiaeth ymhlith tenantiaid, ysgolion ac ati.

Adroddodd y Swyddog Masnachol, Bwyd a Thyfu Cymunedol, fod y Tîm Bwyd a Thyfu Cymunedol wedi creu cwmni budd cymunedol newydd o'r enw 'Llond Bol' a fyddai'n gweithredu o 1 Ebrill 2018.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu cyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cyflwyniad.

## 43 Archwiliad o'r Cynnig Gofal Plant i Blant 3 a 4 oed gan y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi

Cyfeiriodd y cadeirydd at yr adroddiad a gofynnodd am sylwadau gan aelodau.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau, dywedodd y Pennaeth Tlodi a’i Atal fod Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant ym mhob rhan o'r sir erbyn diwedd tymor y Cynulliad a sicrhau bod y cynnig yn fwy hyblyg o ran galluogi pobl i ddychwelyd i'r gwaith.

**Penderfynwyd** y dylai'r adroddiad fynd gerbron y Cabinet ar 15 Mawrth 2018, yn enw Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi.

## 44 Cynllun Gwaith 2017/2018.

Cyflwynodd y Cadeirydd y cynllun gwaith presennol ar gyfer 2017-2018.

Trafododd yr aelodau yr eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod ar 28 Mawrth, 2018 ynghylch Digartrefedd.

Cyfeiriodd y Cyng. L R Jones at bapur ymchwil defnyddiol a luniwyd gan gyn-Aelod Seneddol a allai fod o fudd i Aelodau'r Pwyllgor.

**Penderfynwyd:**

1. **nodi** Cynllun Gwaith 2017-2018; a
2. bod Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn anfon y papur ymchwil ymlaen at Aelodau'r Pwyllgor.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.20 pm

**Cadeirydd**